OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2917 (Cy.256) (C.121)

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB

Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cychwyn) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud - - 9 Tachwedd 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 60 i 62 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**):

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cychwyn) (Cymru) 2004.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf " ("the Act") yw Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

Cychwyn y Ddeddf

2. Daw'r Ddeddf, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, i rym ar 10 Tachwedd 2004.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

D. Elis-Thomas
9 Tachwedd 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 2004 p. 21 .
(**2**) 1998 p.38.